Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Prestatyn

**2 Rhodfa'r Tywysog**
**Prestatyn**
**LL19 8RS**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Prestatyn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Uwchradd Prestatyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1448 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 1196 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 221 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 20.2%) | 25.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 17.8%) | 25.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 1.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1.6% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2016 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/10/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 06/02/2023 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae’r term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio’r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

# Trosolwg

Mae Ysgol Uwchradd Prestatyn yn darparu amgylchedd dysgu cadarnhaol a difyr lle mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu i fod yn unigolion hapus, caredig a pharchus. Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gynhwysol lle mae disgyblion a staff yn gweithio'n agos ac yn effeithiol fel tîm ac mae'r perthnasoedd hyn yn ffurfio curiad calon yr ysgol. Trwy ei 'Chanolfan Ymgysylltu', ei hystafell les a phartneriaethau ag asiantaethau allanol, mae'r ysgol yn darparu cymorth cryf a thra ystyriol ar gyfer lles disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth.

Mae cwricwlwm yr ysgol wedi'i gynllunio'n ystyriol gydag anghenion disgyblion yn ganolog iddo. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth ddofn o'r gymuned y maent yn ei gwasanaethu, ac mae eu hymrwymiad i sicrhau bod yr ysgol yn cefnogi ac yn ffurfio'r gymuned honno yn nodedig. Mae cynnig cyfoethogi ac allgyrsiol bywiog, sydd weithiau'n cael ei ffurfio a'i gyflwyno gan y disgyblion eu hunain, yn ychwanegu at y cwricwlwm ffurfiol,. Er mai megis dechrau datblygu y mae meysydd fel cynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol, mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm cynhwysol, sy'n cynnig rhywbeth i bob disgybl, ni waeth beth yw ei gefndir.

Pan mae'r addysgu ar ei gryfaf, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, mae gormod o anghysondeb ym mha mor dda y mae athrawon yn cynllunio i ddatblygu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth disgyblion dros gyfnod ac ni chaiff disgyblion eu herio'n ddigon da. Mae hyn yn cyfyngu ar y cynnydd a wna disgyblion.

Mae'r pennaeth a'i uwch dîm wedi gweithio'n dda i sefydlu diwylliant o ddisgwyliadau uchel ar gyfer pawb, ac fe wnaethant rannu eu gweledigaeth yn dda, sef y dylai cymuned yr ysgol gyfan gymryd cyfrifoldeb cadarnhaol am eu gweithredoedd a'u penderfyniadau. Mae llywodraethwyr, arweinwyr a staff yn gofalu am eu hardal ac yn ymdrechu i sicrhau bod eu hysgol yn cynorthwyo'r gymuned i ffynnu. Mae arweinwyr yn casglu ystod o dystiolaeth i werthuso gwaith yr ysgol, ac at ei gilydd, mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Er bod arweinwyr yn gwerthuso ansawdd yr addysgu, nid yw hyn yn ddigon manwl gywir i fodloni eu holl ddyheadau a chynllunio ar gyfer gwella.

## Argymhellion

A1 Cryfhau prosesau gwerthuso a gwella fel bod arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth fwy manwl gywir o effaith eu gwaith, yn enwedig effaith yr addysgu ar ddysgu.

A2 Sicrhau bod yr addysgu yn cynorthwyo'r holl ddisgyblion i ddatblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth yn raddol.

A3 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mewn llawer o wersi, mae mwyafrif y disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd addas o leiaf o ran datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Mae llawer o ddisgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda ac mae'r mwyafrif ohonynt yn cymhwyso hyn yn briodol mewn cyd-destunau newydd a mwy heriol, er enghraifft pan fyddant yn datblygu dealltwriaeth o bensaernïaeth yr Uned Brosesu Ganolog (CPU) mewn TGCh. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu, er enghraifft mewn Saesneg pan fyddant yn ystyried 'y camsyniad teimladol' i ddarganfod sut mae'r tywydd yn effeithio ar hwyliau. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig, yn aml o ganlyniad i addysgu llai effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn sgwrsio'n hyderus ac yn barchus ag athrawon ac ymwelwyr. Maent yn ymgysylltu'n dda â thrafodaeth am eu gwaith, ac mae llawer ohonynt yn awyddus i rannu eu syniadau. Maent yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn dda i gwestiynau syml. Mae ychydig o ddisgyblion yn rhoi atebion estynedig ac yn esbonio eu meddwl yn dda, gan gynnwys pan fyddant yn ystyried dibynadwyedd tystiolaeth yn llofruddiaeth Thomas Beckett. Mae ychydig ohonynt yn cynnig atebion byr, annatblygedig yn unig i gwestiynau athrawon.

Mae llawer o ddisgyblion yn darllen testunau syml ac yn dethol gwybodaeth sylfaenol yn gywir, er enghraifft pan fyddant yn ystyried theori ffeministaidd troseddu mewn cymdeithaseg. Maent yn anodi testunau yn effeithiol i nodi geiriau allweddol a ffeithiau ac ystadegau perthnasol. Mewn ychydig o feysydd ar draws y cwricwlwm, o roi'r cyfle iddynt, mae lleiafrif o ddisgyblion yn cyfosod gwybodaeth yn dda o ystod o ffynonellau, er enghraifft mewn hanes, pan fyddant yn casglu tystiolaeth i ymchwilio i'r hyn a achosodd y Rhyfel Byd Cyntaf a sut cafodd ei ddatrys. Mae ychydig o ddisgyblion yn darllen ar goedd yn hyfedr. Maent yn amrywio tôn a goslef eu llais i gyfleu ystyr ac yn ennyn diddordeb y gwrandäwr yn effeithiol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu â chywirdeb a rheolaeth addas. Maent yn cynhyrchu ysgrifennu sydd wedi'i strwythuro'n briodol i gyfleu eu rhesymu. O roi'r cyfle iddynt, maent yn cynnig atebion estynedig gwerthfawr. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu'n gydlynus am eu hardal ac yn nodi'r agweddau cadarnhaol a negyddol am ble maent yn byw yn Ffrangeg. Yn ychwanegol, wrth ysgrifennu at ddiben, maent yn dangos medr technegol effeithiol, er enghraifft mewn astudiaethau crefyddol wrth ddefnyddio technegau trafod i archwilio p'un a yw crefydd ynglŷn â datrys anghyfiawnder yn y byd. Er bod lleiafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu mewn ffordd ddadansoddol a gwerthusol, mae cyfran debyg yn gwneud camgymeriadau sylfaenol mynych yn eu hysgrifennu, yn enwedig camgymeriadau mewn sillafu, atalnodi a gramadeg. Mae ychydig o ddisgyblion yn cael trafferth cyfathrebu'n glir yn eu hysgrifennu.

Mewn pynciau perthnasol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhif yn dda. Maent yn defnyddio amcangyfrif a chyfrifo â graddfa yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddylunio tablau mewn dylunio cynnyrch. Maent yn cyfrif yn y pen yn gywir, yn gweithio'n dda gyda ffracsiynau, degolion a chanrannau, ac yn defnyddio

coed tebygolrwydd yn briodol i gyfrifo tebygolrwyddau amodol a diamod. Er bod llawer o ddisgyblion yn defnyddio data i blotio graffiau gan ddefnyddio graddfeydd addas, tua hanner ohonynt yn unig sy’n dehongli’r graffiau yn annibynnol neu’n nodi tueddiadau’n gywir. Mae mwyafrif y disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o bedair rheol rhif ac yn cymhwyso’r rhain yn dda i gwblhau ystod o gyfrifiadau.

Mae disgyblion yn defnyddio eu medrau digidol yn briodol at amrywiaeth o ddibenion ar draws y cwricwlwm. Maent yn creu cyflwyniadau addysgiadol, yn trin a thrafod ffotograffau, yn dylunio tudalennau gwe ac yn ymchwilio i destunau fel dechrau ffeministiaeth. At ei gilydd, mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn dda. Maent yn creu byrddau hwyliau gan ddefnyddio’r prif liwiau a lliwiau eilaidd, ac yn arbrofi ag arlliwiau, eiliwiau a thonau. Yn gyffredinol, maent yn datblygu eu medrau meddwl yn dda hefyd. Er enghraifft, mewn iechyd a gofal cymdeithasol, maent yn ystyried sut i gynorthwyo unigolion ag anghenion penodol mewn cymdeithas i gyflawni nod penodol, ac mewn addysg gorfforol, maent yn rhagweld yn gywir effaith sesiwn cardiofasgwlaidd ar eu manwl gywirdeb wrth geisio anelu saethiadau mewn saethyddiaeth.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda. Er enghraifft, maent yn dysgu chwaraeon newydd ac yn defnyddio eu medrau echddygol manwl i dynnu esgyrn yn ofalus o gluniau cyw iâr wrth baratoi prydau bwyd yn eu gwersi arlwyo. Mae disgyblion yn dangos medrau cydsymud priodol, ac yn dangos ystwythder trwy newid yn gyflym o un symudiad i un arall.

Yn eu gwersi Cymraeg, mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn briodol i ddatblygu eu Cymraeg llafar. Maent yn ynganu geiriau ac ymadroddion byr yn glir, ond yn aml, nid oes ganddynt hyder i ddatblygu eu cyfraniadau yn y dosbarth. Mae tua hanner y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gallu i gyfathrebu yn Gymraeg. Mae ychydig o ddisgyblion yn cynnig cyfraniadau mwy datblygedig ar lafar, ac mae lleiafrif ohonynt yn defnyddio strategaethau darllen buddiol yn briodol i gasglu ystyr o baragraffau byr.

At ei gilydd, mae disgyblion yn y chweched dosbarth yn dangos agweddau cadarnhaol ac yn ymgysylltu’n dda â’u dysgu. Mae llawer ohonynt yn galw gwybodaeth flaenorol i gof yn gadarn ac yn cymhwyso hyn i gyd-destunau newydd a chynyddol heriol yn llwyddiannus; er enghraifft, mewn gwersi Sbaeneg, maent yn paratoi dadl ar b’un a ddylid anghofio am Franco a’r gorffennol yn Sbaen. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn y chweched dosbarth yn cyflwyno’u gwaith yn hyderus ac yn gwerthuso gwaith disgyblion eraill yn fedrus ac yn barchus gan gynnig adborth buddiol, er enghraifft pan fyddant yn coreograffu dawns iddyn nhw eu hunain a disgyblion eraill.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob un o ddisgyblion Ysgol Uwchradd Prestatyn yn falch o berthyn i ysgol gynhwysol, ac yn disgrifio bod iddi ymdeimlad cartrefol ac iachus. Maent yn hyrwyddo addewidion yr ysgol yn dda, a ddatblygwyd ar y cyd â chlwstwr cynradd yr ysgol, sef 'bod yn barchus, bod yn garedig, bod yn gadarnhaol, bod y gorau y gallwn ni, a threchu casineb ar-lein’. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwrtais a moesgar â staff, cyfoedion a phobl sy’n ymweld â’r ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus pan fyddant yn yr ysgol ac yn mwynhau bod yn rhan o gymuned yr ysgol. Ceir lefelau uchel o barch ac ymddiriedaeth ar y ddwy ochr rhwng holl aelodau'r ysgol oherwydd y ffocws diwyro ar les. Maent yn ymgysylltu'n dda â'r gweithgareddau amrywiol sy'n eu hannog i fyfyrio'n bwrpasol ar eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl. Pan fydd angen cymorth arnynt, mae disgyblion yn ymweld â'r ystafell les, sy'n darparu hafan dawel lle maent yn elwa ar gymryd rhan mewn gweithgareddau fel gwau, therapi celf a myfyrdod.

Dywed y rhan fwyaf o ddisgyblion eu bod yn rhydd o fwlio pan fyddant yn yr ysgol, a'u bod yn gwybod at bwy i droi am gymorth. Pan fydd achosion prin yn digwydd, mae disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn delio â nhw'n gyflym, yn effeithiol ac yn sensitif. Mae disgyblion yn ymgysylltu'n dda â chontractau gwrthfwlio, sydd, yn eu barn nhw, yn eu helpu'n llwyddiannus i ddelio â bwlio a gwahaniaethu.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall ymagweddau teg a chyson yr ysgol at ymddygiad, ac yn ymateb yn gadarnhaol iddynt. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n galed, yn cyrraedd gwersi'n brydlon ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain, wedi'u cymell gan system wobrau'r ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn ymdawelu'n dda ar ddechrau gwersi, yn ymgysylltu'n bwrpasol â gweithgareddau ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol tuag at eu dysgu. Fodd bynnag, caniateir i ychydig o ddisgyblion aros yn ddifater a goddefgar yn ystod gwersi, ac maent yn rhoi'r gorau i ganolbwyntio'n rhy hawdd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymfalchïo yng nghyflwyniad eu gwaith, ac mae llawer ohonynt yn ymateb yn addas i sylwadau eu hathrawon ar gyfer gwella.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i ddilyn ffordd iach o fyw, gan wneud dewisiadau synhwyrol am fwyta'n iach a chymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. Maent yn mwynhau cyfleoedd i drafod materion moesol fel gwrthdaro, amrywiaeth, ac effeithiau negyddol y cyfryngau cymdeithasol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol a chymdeithasol yn dda trwy raglen gyfoethogi eang yr ysgol. Ceir ystod eang o glybiau ar ôl yr ysgol y mae nifer dda o ddisgyblion yn eu mynychu, gan gynnwys 'Clwb Gofalu am Anifeiliaid' a dechreuwyd 'Clwb Pêl Foli' gan y disgyblion. Mae'r cyfraniad a wna disgyblion at ddatblygu clybiau yn un o gryfderau nodedig yr ysgol.

Mae disgyblion yn rhannu eu barn yn rheolaidd am agweddau ar yr ysgol. Caiff y cyngor ysgol gweithgar effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol, gan gynnwys y newidiadau i'r wisg ysgol a chyflwyno cig halal yn y ffreutur. Mae aelodau o'r cyngor chwaraeon yn helpu staff yn yr adran addysg gorfforol i gynnal gweithgareddau allgyrsiol. Mae ychydig o ddisgyblion ym Mlwyddyn 9 yn datblygu eu medrau arwain yn dda trwy weithredu fel 'Cyfeillion' i ddisgyblion setlo pan fyddant yn dechrau ym Mlwyddyn 7.

Mae bron pob un o'r disgyblion chweched dosbarth yn hapus pan fyddant yn yr ysgol, ac mae ganddynt berthnasoedd da â'u hathrawon a'u cyfoedion. Mae llawer ohonynt yn gwerthfawrogi'r cymorth a'r cyngor a ddarperir i'w helpu i wneud penderfyniadau am eu dyfodol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymgymryd yn gadarnhaol â gweithgareddau allgyrsiol i wella'u hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i ddatblygu eu medrau arwain, er enghraifft pan fyddant yn cymryd rhan yng nghynllun 'Disgyblion Chweched Dosbarth yn Eich

Gwarchod' ('Sixth Formers Protecting You') sy'n helpu disgyblion iau i deimlo'n ddiogel pan fyddant yn yr ysgol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn wybodus am eu pynciau ac yn defnyddio terminoleg sy'n benodol i bwnc yn dda. Mae llawer o athrawon yn cynllunio'n briodol i adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion a chefnogi eu cynnydd. Mae hyn yn cynnwys cynllunio gweithgareddau cychwynnol addas, sy'n ennyn diddordeb disgyblion wrth iddynt fynd i mewn i'r ystafell ddosbarth. Mae'r athrawon hyn yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda disgyblion. Maent yn mynd o amgylch yr ystafell ddosbarth yn effeithiol ac yn cynnig adborth gwerthfawr ar lafar i helpu disgyblion i ganolbwyntio a chwblhau eu gwaith. At ei gilydd, mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol i wneud cynnydd addas.

Mae gan fwyafrif yr athrawon ddisgwyliadau cadarn o ymgysylltiad disgyblion a'r cynnydd a wnânt. Maent yn rheoli ymddygiad yn dda i sicrhau bod disgyblion yn cymryd rhan yn gadarnhaol mewn gweithgareddau ystafell ddosbarth. Mae'r athrawon hyn yn rhoi cyfarwyddiadau ac esboniadau clir i helpu disgyblion i ddeall beth i'w wneud mewn gwersi. Maent yn defnyddio cwestiynau'n briodol i helpu disgyblion i alw eu dysgu blaenorol i gof ac yn darparu adnoddau buddiol sy'n cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd addas.

Mewn ychydig o achosion, lle mae'r addysgu'n hynod effeithiol, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o ymgysylltiad disgyblion a'r cynnydd y dylent ei wneud. Maent yn cynllunio gweithgareddau pwrpasol sy'n cymell ac yn herio disgyblion. Mae'r athrawon hyn yn modelu cysyniadau'n ofalus ac yn cynorthwyo disgyblion yn dda i gymhwyso eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth. Maent yn defnyddio holi yn effeithiol i brocio a monitro dysgu'r disgyblion, ac yn addasu eu haddysgu i ymateb i ba mor dda y mae disgyblion yn gwneud cynnydd. Mae'r athrawon hyn yn mynd i'r afael â chamdybiaethau yn brydlon ac yn canolbwyntio ar ansawdd cynnydd disgyblion wrth ddarparu adborth llafar. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn y gwersi hyn.

Mewn lleiafrif o achosion, mae disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn rhy isel. Yn yr achosion hyn, nid yw athrawon yn ymyrryd pan fydd rhywbeth yn tynnu sylw ychydig o ddisgyblion neu pan nad ydynt yn ymgysylltu â gweithgareddau. Yn aml, nid yw eu cynllunio yn ystyried dilyniant yn ddigon da. Maent yn cynllunio gweithgareddau diymdrech neu'n darparu sgaffaldiau a thaflenni gwaith, ac yn cyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i gymhwyso eu dealltwriaeth a'u medrau yn annibynnol. Nid yw'r athrawon hyn yn holi disgyblion yn ddigon da. Yn gyffredinol, nid yw eu holi yn herio disgyblion i gynnig esboniadau neu ddatblygu eu dealltwriaeth.

Mae llawer o athrawon yn nodi camgymeriadau sillafu a gramadeg sylfaenol yng ngwaith disgyblion. Mae mwyafrif o athrawon yn cynnig adborth priodol i ddisgyblion i'w helpu i wneud gwelliannau. Fodd bynnag, mae ansawdd yr adborth ysgrifenedig yn rhy amrywiol. Yn aml, mae sylwadau'n rhy gyffredinol ac nid ydynt yn cael digon o effaith ar gynnydd disgyblion.

Mae gan yr ysgol systemau addas i olrhain a monitro cynnydd academaidd disgyblion. Mae adroddiadau i rieni yn briodol o reolaidd ac yn cynnwys gwybodaeth fuddiol. Mae adroddiad blynyddol yn cynnwys sylwadau defnyddiol ar gryfderau disgyblion a'u meysydd i'w gwella mewn meysydd pwnc, yn ogystal â sylwadau personoledig gan aelodau o'r uwch dîm arweinyddiaeth.

Mae Ysgol Uwchradd Prestatyn yn darparu cwricwlwm sy'n ymateb yn dda i anghenion eu cymuned a'u disgyblion. Caiff ehangder y cwricwlwm ei leihau ym Mlwyddyn 9 er mwyn caniatáu i lai o bynciau gael eu hastudio dros gyfnod amser hwy. Mae'r ysgol yn darparu dewis helaeth ar gyfer disgyblion yng nghyfnodau allweddol 4 a 5. Mae hyn yn cynnwys cynnig galwedigaethol cryf mewn meysydd, fel lletygarwch a gofal anifeiliaid, y darperir rhai ohonynt mewn partneriaeth â'r 'Gynghrair Arfordirol'. Mae hyn yn rhoi amrywiaeth gyfoethog o brofiadau dysgu i ddisgyblion sy'n ehangu eu gorwelion ac yn cynyddu eu dyheadau.

Ar ôl y pandemig, mae arweinwyr wedi nodi dirywiad ym medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. I ymateb i hynny, mae'r ysgol yn dechrau diwygio ei chynllunio yn addas i gefnogi gwelliannau ym medrau disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol wedi'i datblygu'n ddigonol, ac mae yn ei dyddiau cynnar.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol (ABCh) yn gynhwysfawr ac yn cyfrannu'n dda at ddiwylliant y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ynddo mewn amgylchedd sy'n annog goddefgarwch a pharch at bobl eraill. Caiff hyn ei lywio gan waith grwpiau disgyblion, fel y grŵp gwrth-wahaniaethu ac amrywiaeth.

Mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth effeithiol ar gyfer addysg gyrfaoedd a'r byd gwaith, gan gynnwys partneriaeth â chyflogwyr lleol. Mae gweithio gydag asiantaethau allanol yn sicrhau bod cyngor yn ddiduedd, ac mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn eu paratoi'n dda ar gyfer eu camau nesaf mewn dysgu.

Mae gweithgarwch allgyrsiol a chyfoethogi yn nodwedd gref, lle caiff disgyblion eu hannog i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys y rhai y tu allan i'r diwrnod ysgol. Er enghraifft, mae'r clybiau saethyddiaeth, gwyddbwyll a dawns yn darparu cyfleoedd difyr lle mae disgyblion yn datblygu eu medrau ac yn meithrin perthnasoedd â'u cyfoedion. Mae'r ysgol wedi ymrwymo i sicrhau nad yw amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd yn rhwystr rhag cymryd rhan mewn ymweliadau cwricwlaidd, gan gynnwys trip troseddeg â hen garchar yn Yr Amwythig a gwaith maes ar gyfer disgyblion daearyddiaeth yng Ngwlad yr Iâ.

Mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth addas ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg ac yn dathlu diwylliant a threftadaeth Cymru. Er enghraifft, yn ystod Cwpan y Byd yn ddiweddar a thrwy gydweithio ag ysgolion lleol eraill, maent yn archwilio ac yn dathlu'r hyn y mae bod yn ddinesydd yng Nghymru yn ei olygu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Uwchradd Prestatyn wedi ymrwymo i ddatblygiad personol a chymdeithasol disgyblion. Mae staff yn gofalu'n fawr am les eu disgyblion ac yn sensitif i'w hamgylchiadau unigol. Mae gan yr ysgol ystod eang o ddarpariaeth

deilwredig sy’n cynorthwyo disgyblion i wella’u lles emosiynol a’u hiechyd meddwl mewn amgylchedd cynhwysol a chefnogol lle mae pawb yn bwysig. Er bod yr ysgol yn hyrwyddo presenoldeb yn dda ac yn darparu ymyriadau buddiol i gynorthwyo’r rhai sydd ei angen, mae cyfraddau presenoldeb islaw’r hyn roeddent cyn y pandemig o hyd.

Mae’r ysgol wedi cynyddu ei chapasiti’n fuddiol i gefnogi datblygiad anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Mae hyn yn cynnwys swyddog cyswllt myfyrwyr, gwasanaeth cwnsela’r ysgol, a ‘Rhaglen Gwella Gwyliau’r Haf’ (SHEP). Mae staff yn gweithio’n effeithiol gydag amrywiaeth eang o asiantaethau allanol i ddarparu cymorth ychwanegol buddiol ar gyfer y disgyblion hynny sydd ei angen.

Mae disgyblion yn elwa ar raglen ABCh dra ystyriol a chynhwysfawr, sy’n darparu’n dda ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Ceir ystod eang o gyfleoedd cynlluniedig i archwilio themâu fel iechyd meddwl ac anghenion emosiynol, gan nodi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Caiff darpariaeth yr ysgol ei monitro’n ofalus a’i haddasu’n brydlon i ymateb i unrhyw faterion cymdeithasol lleol. Mae anghenion y gymuned yn ganolog i’r ddarpariaeth hon. Mae cylchlythyrau bob hanner tymor yn dathlu agweddau ar fywyd yr ysgol a chyflawniad disgyblion ac yn amlygu cyfraniadau elusennol at y gymuned leol a’r gymuned ehangach.

Mae’r ysgol yn gwerthfawrogi llais y disgybl ac yn annog eu cyfranogiad yn rhagweithiol ym mhob agwedd ar fywyd ysgol. Ceir ystod eang o grwpiau a phwyllgorau gwerthfawr, gan gynnwys grŵp eco a’r grŵp gwrth-wahaniaethu, ac mae’r ysgol yn sicrhau bod pob grŵp o ddisgyblion yn cael ei gynrychioli. Mae disgyblion yn y grwpiau hyn yn dylanwadu ar gyfeiriad yr ysgol tra’n datblygu eu medrau arwain. Er enghraifft, gweithiodd y grŵp gwrth-wahaniaethu yn ystyrlon gyda’r ysgol i ddatblygu’r cynllun dysgu cyfrifoldeb cymdeithasol a sefydlu ystafell weddi.

Mae disgyblion ag ADY yn elwa ar ddarpariaeth addas ac mae’r ardal anghenion dysgu ychwanegol yn darparu awyrgylch tawel a diogel. Mae ymyriadau priodol ar waith i gynorthwyo disgyblion â medrau llythrennedd a rhifedd gwan. Caiff staff eu defnyddio’n effeithiol i gefnogi dysgu ac anghenion disgyblion. Ar ôl penodi’r Cydlynydd ADY newydd, mae’r ysgol wedi cyflymu ei phrosesau ar gyfer gweithredu’r Ddeddf ADY newydd.

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth effeithiol i gefnogi anghenion emosiynol ac ymddygiadol disgyblion, fel ‘Ystafell Les’ a ‘Chanolfan Ymgysylltu’. Mae’r gofodau hyn yn ymateb i anghenion amrywiol disgyblion ac yn darparu cymorth pwrpasol i wella’u hymgysylltiad a’u lles. Mae hyn yn gryfder arbennig yng ngwaith yr ysgol.

Ceir cyfleoedd helaeth i ddisgyblion ymgymryd â gweithgarwch corfforol i ddatblygu eu hiechyd meddwl a’u hiechyd corfforol. Yn ychwanegol, ceir dewislen amrywiol o glybiau allgyrsiol dyddiol sy’n ehangu profiadau cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Caiff dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant, hunaniaeth a threftadaeth Cymru ei meithrin trwy ddathliadau Eisteddfod ysgol, Dydd Santes Dwynwen a chystadlaethau ‘Cogurdd’ yr Urdd.

Mae'r ysgol yn darparu ystod fuddiol o nosweithiau opsiynau ac ymweliadau allanol i helpu disgyblion i wneud dewisiadau gwybodus am eu dyfodol. Mae arweinwyr bugeiliol yn dadansoddi dewisiadau dysgu ffafriedig disgyblion yn y dyfodol yn effeithiol ac yn darparu cymorth teilwredig trwy gyfarfodydd un i un. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn manteisio ar gymorth gwerthfawr trwy ymweld â phrifysgolion, ffug gyfweliadau a rhaglenni cymorth ariannol.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles disgyblion. Maent yn ymateb yn brydlon i bryderon am amddiffyn plant ac yn gwneud yr atgyfeiriadau angenrheidiol. Mae staff yn gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol i ddarparu cymorth buddiol ar gyfer disgyblion a'u teuluoedd. Mae pob aelod o staff yn cael hyfforddiant buddiol rheolaidd. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau mewn cadw disgyblion yn ddiogel ac yn gweithio'n ddiwyd i helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn dweud eu bod yn rhydd o fwlio.

Mae gan yr ysgol brosesau effeithiol i ymchwilio i bryderon am les a adroddwyd gan ddisgyblion ac yn darparu cymorth buddiol i'r rhai dan sylw. Mae 'Canolfan Ymgysylltu Prestatyn' (ECP) yn adnodd gwerthfawr i gynorthwyo'r ysgol i wella ymddygiad disgyblion. Mae ganddi amgylchedd gweithio cadarnhaol ac mae'n cefnogi disgyblion yn dda i ailintegreiddio'n ôl i wersi prif ffrwd pan fyddant yn barod.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref a phendant ac fe gaiff gefnogaeth fedrus gan ei uwch dîm. Ers ei benodi, mae wedi gweithio gyda phenderfynoldeb i sefydlu a chyfleu gweledigaeth glir yn effeithiol, sy'n sicrhau bod pob aelod o staff yn cymryd cyfrifoldeb cadarnhaol am gyfleoedd eu disgyblion mewn bywyd.

Mae uwch arweinwyr wedi llwyddo i ddatblygu tîm ymroddgar o staff sy'n gweithio gyda'i gilydd yn dda. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar wella lles ac ymgysylltiad disgyblion, ac yn benodol, y balchder y maent yn ei deimlo yn eu gwaith. Mae arweinwyr ar bob lefel yn seilio'r penderfyniadau a wnânt ar ddealltwriaeth fanwl o anghenion yr ardal ac yn gweithio'n galed i sicrhau bod yr ysgol yn ganolog i'w cymuned.

Mae arweinwyr yn fodelau rôl cryf ar gyfer eu staff, disgyblion a chymuned ehangach yr ysgol. Mae disgwyliadau uchel, ynghyd ag agenda a reolir yn llym ar gyfer newid ac ystod addas o ddysgu proffesiynol, wedi cynorthwyo'r ysgol i greu amgylchedd dysgu cadarnhaol a sicrhau disgwyliadau cyson uchel o ran gwaith ac ymddygiad disgyblion.

Caiff rolau a chyfrifoldebau uwch arweinwyr eu dosbarthu'n deg ac maent yn gwneud y defnydd gorau o fedrau unigolion. Mae hyn yn darparu cydbwysedd buddiol rhwng cefnogi cynnydd academaidd disgyblion a'u lles, gan gynnwys datblygu eu hiechyd meddwl a'u hiechyd corfforol.

Dros gyfnod, mae'r ysgol wedi sefydlu prosesau a ddeellir yn dda ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Mae uwch arweinwyr yn cynnal ystod gynhwysfawr o weithgareddau perthnasol, at ei gilydd, i nodi cryfderau a meysydd i'w

datblygu ar draws pob agwedd ar waith yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd buddiol i gasglu barn disgyblion ynghyd â barn rhieni a rhanddeiliaid eraill. Mae'r ysgol yn dwyn y canfyddiadau hyn ynghyd fel mater o drefn mewn crynodebau addysgiadol.

Er gwaethaf yr ymagweddau buddiol hyn, mae ffocws uwch arweinwyr yn canolbwyntio'n ormodol ar gydymffurfiad staff â pholisïau'r ysgol. Maent yn rhoi gormod o bwyslais ar ddeilliannau ar ddiwedd cyfnodau allweddol a data arall, yn hytrach na gwerthuso'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud mewn gwersi a thros gyfnod. Mae uwch arweinwyr yn cynnal arsylwadau gwersi ac adolygiadau llyfrau rheolaidd, ond, ar y cyfan, maent yn gwirio p'un a yw athrawon yn cynnwys dulliau neu arferion ffafriedig yr ysgol yn hytrach na gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth. Nid ydynt yn gwahaniaethu'n ddigon da rhwng yr agweddau pwysicaf ar ddysgu ac addysgu nac ar ddatblygu medrau disgyblion yn raddol. At ei gilydd, nid yw arweinwyr yn nodi cryfderau na meysydd i'w gwella â manylder na chywirdeb digonol ac nid ydynt yn gwerthuso darpariaeth o ran ei heffaith ar ddysgu. O ganlyniad, mae barn yr ysgol am ei gwaith yn rhy gadarnhaol, yn enwedig o ran dysgu ac addysgu ac effaith dysgu proffesiynol.

Mae'r ysgol yn rhannu ei blaenoriaethau ysgol gyfan yn dda. Ar y cyfan, mae'r pum blaenoriaeth drosfwaol yn deillio o ddiben moesol cryf uwch arweinwyr a'u hafiaith i wella. Dangosir enghreifftiau da o'r blaenoriaethau mewn esboniadau ynglŷn â pham maent yn bwysig, a sut olwg sydd ar lwyddiant, at ei gilydd. Yn ychwanegol, mae gan yr ysgol gynllun gwelliant gweithredol cynhwysfawr, sy'n cynnwys camau gweithredu manwl ar gyfer pob agwedd ar waith yr ysgol, ac yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae arweinwyr wedi dangos gwelliant mewn ychydig o feysydd pwysig o waith yr ysgol, gan gynnwys meithrin perthnasoedd cryf ac ymddiriedus ar draws cymuned yr ysgol gyfan, a gwelliannau cynaledig mewn ymddygiad. Er bod uwch arweinwyr yn monitro yn erbyn cwblhau camau gweithredu yn eu cynlluniau gwella, nid ydynt yn gwerthuso'r effaith a gaiff eu gweithredoedd yn gywir, yn enwedig o ran cynnydd disgyblion mewn gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau ac agweddau ar addysgu.

Mae gan lawer o arweinwyr canol ddealltwriaeth addas o'r cryfderau cyffredinol a'r blaenoriaethau gwella yn eu meysydd cyfrifoldeb ac maent yn gwneud defnydd addas o'r data ar gynnydd a ddarperir gan uwch arweinwyr. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth fanwl iddynt o ddeilliannau disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl o dangyflawni. Fodd bynnag, mae gan arweinwyr y cwricwlwm rôl fwy cyfyngedig mewn prosesau gwerthuso a gwella, ac mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i gael dealltwriaeth glir o'r cryfderau penodol a'r meysydd i'w gwella o fewn eu hadrannau, gan gynnwys ansawdd yr addysgu a chynnydd disgyblion.

Mae prosesau rheolaeth llinell yn glir a chefnogol ac yn darparu cyfleoedd buddiol i arweinwyr herio staff ar bob lefel. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hyn bob amser yn canolbwyntio'n ddigon manwl gywir ar gynllunio ar gyfer gwelliant strategol yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

Mae gan yr ysgol raglen dysgu proffesiynol eang sydd wedi cynorthwyo pob aelod o staff i ddeall disgwyliadau'r ysgol ar gyfer ei holl feysydd gwaith. Mae wedi dechrau cefnogi datblygiad ychydig o agweddau ar addysgu yn fuddiol, fel holi ac adborth.

Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i staff ar bob lefel rannu arfer effeithiol ac mae hyn yn dechrau creu diwylliant myfyriol ar draws yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn hynod gefnogol i'r ysgol ac yn darparu her berthnasol i'r holl arweinwyr am agweddau fel gwario'r grant datblygu disgyblion a deilliannau o arholiadau allanol. Maent yn aelodau balch o gymuned yr ysgol ac yn cyflawni eu dyletswyddau'n ddiwyd, gan wneud cyfraniad cadarnhaol at gyfeiriad strategol yr ysgol, gan gynnwys sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau addas ar gyfer bwyta ac yfed yn iach.

Mae uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn dda. Maent yn adolygu gwariant ac yn cynllunio'n gyfrifol, gan gymryd camau priodol lle bo angen. Mae hyn wedi eu helpu i leihau eu diffyg yn y gyllideb yn sylweddol tra'n cynnal arlwy eang o ran y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd wedi'i gynllunio a'i dargedu'n ofalus o'r grant datblygu disgyblion i gefnogi lles, cyflawniad a phrofiadau disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel. Mae enghreifftiau o strategaethau arloesol yn cynnwys cefnogi prosiectau digidol pontio'r cenedlaethau i gartref gofal cyfagos a chreu gofod 'Youth Shedz' gyda'r gwasanaeth ieuenctid a'r gymuned leol sy'n cynnig cymorth a hyfforddiant teilwredig ar gyfer dysgwyr bregus.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru/

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  12/04/2023